**Comisiynydd Plant Cymru**

**Amcangyfrif cyllideb 2017/18**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| 1. Cefndir yr amcangyfrif hwn sy'n cael ei gyflwyno | 2 |
| 2. Rôl Comisiynydd Plant Cymru | 3 |
| 3. Trefniadau llywodraethu | 4 |
| 4. Atebolrwydd | 4 |
| 5. Effeithlonrwydd | 5 |
| 6. Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 – 2019 | 6 |
| 7. Amcangyfrif 2017/18 | 7 |
| 8. Yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn | 8 |

## 1. Cefndir yr amcangyfrif hwn sy'n cael ei gyflwyno

Rwy'n cyflwyno'r amcangyfrif hwn o'r gyllideb i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol o dan baragraff 6(2) o Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni fy swyddogaethau statudol. Ceir manylion llawn fy nghyflog yn fy adroddiad blynyddol a chyfrifon, sydd ar gael i'w darllen a'u lawrlwytho o www.complantcymru.org.uk

## 2. Rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (ComPlantCymru), a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn sefydliad hawliau plant annibynnol. Mae fy nghylch gorchwyl wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fy mhrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma fy amcan gor-redol wrth gyflawni fy swyddogaethau.

Y diffiniad o blentyn yn Neddf 2000 yw person o dan 18 oed, er fy mod i'n gallu gweithredu pan fydd person ifanc yn hŷn na hyn o dan rai amodau. Er enghraifft, galla i weithredu ar ran person ifanc sydd wedi cael ei roi mewn gofal ac y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd barhaus i ofalu amdano/amdani o dan Ddeddf Plant 1989.

Wrth ymarfer fy swyddogaethau, rhaid i mi roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - siarter ryngwladol sy'n nodi'r isafswm safonau ar gyfer plant a phobl ifanc, ble bynnag maen nhw'n byw. CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer fy ngwaith i gyd. Er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal yng Nghymru, gallaf adolygu swyddogaethau neu ymarferiad swyddogaethau amrywiol gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, ac adolygu a monitro'r trefniadau sydd gan rai cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hybu hawliau plant yng nghyswllt delio gyda chwynion a sylwadau, sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i ddatgelu camarfer, cynrychioli barn a dymuniadau plant, a rhoi cyngor a chefnogaeth i blant.

Mae fy nghylch gorchwyl yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. Gallaf hefyd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

## 3. Trefniadau llywodraethu

Fel corfforaeth un person, fi sy'n gyfrifol ac yn atebol am weithgareddau fy swyddfa, ac fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am gynnal system lywodraethu gadarn. Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau. Mae fy Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n darparu sylfaen i mi gyfeirio a rheoli gweithgareddau fy swyddfa. Mae'r elfennau canlynol yn allweddol:

- **Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

Mae Aelodau'r Pwyllgor hwn yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa’r Comisiynydd a digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'n cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnwys aelodau anweithredol a staff uwch fy swyddfa. Mae dan gadeiryddiaeth annibynnol aelod anweithredol.

- **Y Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc a Phanel Ymgynghorol y Comisiynydd**

Eleni, rwyf wedi sefydlu dau banel ymgynghorol annibynnol i roi cymorth a chyngor i mi a'r tîm. Bydd y fforymau anstatudol hyn yn darparu cyngor a chymorth penodol ynghylch:

1. gweledigaeth, gwerthoedd a diben fy swyddfa
2. cynllunio a chyfeiriad strategol
3. atebolrwydd i ddinasyddion am y cyllid cyhoeddus mae'n ei dderbyn; a
4. threfniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg.

- **Archwilio Mewnol**

Eleni, yn ymarferiad caffael ar y cyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rwyf wedi penodi Deloitte i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol i'r swyddfa. Maent yn gweithredu’n unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system archwilio mewnol y sefydliad. Hyd yma, maent wedi rhoi sicrwydd rhesymol i mi bod proses rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawniad amcanion y sefydliad.

## 4. Atebolrwydd

- **Archwilio Allanol**

Ar sail flynyddol, mae cyfrifon fy sefydliad yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i’r Ddeddf Safonau Gofal. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol y sefydliad. Mae'n ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n ymwneud â'r cyfrifon. Hyd yma, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi codi unrhyw bryderon sylweddol ynghylch agweddau ansoddol ein harferion cyfrifyddu a'n hadroddiadau ariannol, ac nid ydynt hyd yma wedi nodi unrhyw wendidau pwysig yn ein mesurau rheoli mewnol. Yn 2016, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar ein cyfrifon ar gyfer 2015/16.

## 5. Effeithlonrwydd

- **Strwythur y Staff**

Wrth i mi ymgymryd â'm rôl ym mis Ebrill 2015, roedd datblygiadau mewnol ac allanol yn dangos bod angen ad-drefnu rhywfaint ar y strwythur, er mwyn ymateb i'r gofynion parhaus ar fy nhîm. Roeddent yn cynnwys argymhellion Adolygiad annibynnol Shooter o'm swyddfa, y toriad o 10% i'm cyllideb ar gyfer 2016/17 gan Lywodraeth Cymru, newidiadau cymdeithasol a llywodraethol ers i'm swyddfa gael ei sefydlu a'm hymgynghoriad - Beth Nesa' | What Next - â phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ynghylch cyfeiriad fy swyddfa yn y dyfodol.

Mae fy strwythur newydd - gweler y ddogfen ar wahân – wedi bod yn weithredol ers 1 Ebrill 2016. Y nod wrth liflinio'r tîm oedd neilltuo cymaint â phosibl o'r adnodd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ym maes hawliau plant yng Nghymru, ochr yn ochr â chyflawni'r holl ddyletswyddau cysylltiedig â rheoli arian, data a phobl yn ardderchog.

**Gweithio ar y cyd**

Rwy'n dal i fod yn agored i edrych ar y posibilrwydd o gydweithio'n fwy, ac mae fy swyddfa eisoes wedi creu cysylltiad â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch hyn. Mae annibyniaeth yn nodwedd sy'n diffinio unrhyw sefydliad seiliedig ar hawliau, ac mae'r CU yn gweld hynny fel ffynhonnell cyfreithlondeb ac awdurdod. Gan gadw hyn mewn cof, rwy'n cefnogi rhaglenni gwaith ar y cyd a fydd yn helpu i sbarduno gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Eleni, rydyn ni'n arwain dau ddarn o waith ar y cyd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar brosiect pontio'r cenedlaethau a chyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar wreiddio hawliau dynol plant mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi secondio dau aelod o staff i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: ymgynghorydd polisi i weithredu'r rhaglen waith yng nghyswllt gwreiddio hawliau dynol plant mewn gwasanaethau cyhoeddus, a'n Swyddog Adnoddau Dynol i ddarparu cefnogaeth AD o ddydd i ddydd er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol ac arfer gorau.

Mae fy swyddfa hefyd yn rhan o ddau rwydwaith: Rhwydwaith Prydain ac Iwerddon o Ombwdsmyn a Chomisiynwyr Plant (BINOCC) a Rhwydwaith Ombwdsmyn Plant Ewrop (ENOC). Mae bod yn aelod o'r rhwydweithiau hyn yn caniatáu i ni gyfnewid gwybodaeth â sefydliadau tebyg ac yn ein galluogi i weithio ar y cyd er mwy galw eraill, gan gynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i gyfrif am gyflawni hawliau plant. Ar hyn o bryd rwyf wrthi'n datblygu adnodd hawliau plant ar y cyd â swyddfeydd comisiynwyr yr Alban a Lloegr ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Arbedion Effeithlonrwydd Eleni

Er bod fy nhîm cyllid yn sicrhau bod cyllid ac adnoddau'r sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon, rhaid i bob aelod o'm tîm staff, trwy ein dull gweithredu sy'n seiliedig ar reoli prosiectau, dderbyn cyfrifoldeb nawr am sicrhau bod cymaint â phosibl o'n hadnodd yn cael ei gyfeirio at hybu a diogelu hawliau plant. Rydym wedi cyflawni arbedion doeth eleni, ochr yn ochr â pharhau i ddiogelu a hybu hawliau plant. Ymhlith y rhain mae:

  - Gwario swm sylweddol lai ar deithio a chynhaliaeth
  - Gwario llai ar weinyddiaeth y swyddfa.

**6. Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 – 2019**

Fy uchelgais yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

Bu dros 7000 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn ein hymgynghoriad mwyaf erioed yn 2015. Yn sgîl hynny roedd modd i ni ddrafftio cynllun strategol tair blynedd, a oedd wedi'i wreiddio'n gadarn ym marn a dymuniadau'r rhai rydyn ni yma i'w gwasanaethu. Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u cynnwys yn y 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 – 2019':

1. Iechyd meddwl, llesiant a mynd i'r afael â bwlio
2. Tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol
3. Chwarae a hamdden
4. Diogelwch (yn y gymuned, yr ysgol a gartref)
5. Cynyddu ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn a hyrwyddo'r gwaith o'i fabwysiadu ar draws gwasanaethau cyhoeddus
6. Pontio i oedolaeth ar gyfer pob person ifanc sydd angen cefnogaeth a gofal parhaus.

Byddaf fi'n targedu'r materion hawliau hyn ar dair lefel:

- **Polisïau a chyfreithiau sy'n darparu sylfaen ar gyfer hawliau plant**

Bydda i'n gweithio i ddylanwadu ar y rhain a'u newid fel eu bod yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi hawliau plant yn y canol.

- **Gweithredu'r polisïau a'r cyfreithiau hyn yn effeithiol ledled Cymru ac i bob grŵp o blant a phobl ifanc**

Bydda i'n monitro sut mae hawliau plant yn cael eu cyflawni, yn hybu arfer gorau, ac yn herio'r rhai sydd ddim yn parchu hawliau.

- **Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc**

Bydda i'n gwrando ar blant a phobl ifanc ac yn chwilio am newidiadau go iawn yn ansawdd eu bywyd pob dydd a chyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial.

Lle bo angen, bydda i'n defnyddio'r pwerau a nodwyd ar fy nghyfer yn y ddeddfwriaeth i alw'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus i gyfrif ynghylch sut maen nhw'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn eu hawliau.

## 7. Amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2017/18

**Crynodeb**

Y gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer 2017-18 yw £1,543,500.

**Amcangyfrif a lefel cyllideb ddangosol ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf:**

| | **Amcangyfrif** | **Dangosol** | **Dangosol** |
|---|---|---|---|
| | **2017-18** | **2018-19** | **2019-2020** |
| | (£) | (£) | (£) |
| Cyflogau | 1,052,656 | 1,080,961 | 1,079,672 |
| Safleoedd | 95,480 | 95,480 | 95,480 |
| Costau Swyddfa | 104,000 | 104,000 | 104,000 |
| Hyfforddi a recriwtio | 32,100 | 30,600 | 30,600 |
| Teithio a chynhaliaeth | 24,800 | 24,800 | 24,800 |
| Ffi archwilio allanol | 18,853 | 18,853 | 18,853 |
| Ffi archwilio mewnol | 10,500 | 10,500 | 10,500 |
| Cyfathrebu | 46,600 | 46,600 | 46,600 |
| TGCh | 18,500 | 18,500 | 18,500 |
| Costau prosiectau | 108,434 | 105,934 | 105,934 |
| Cyfalaf a Dibrisiad | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,521,923** | 1,546,228 | 1,544,939 |
| **Cyllido gan Lywodraeth Cymru** | **1,543,500** | 1,543,500 | 1,543,500 |
| **(Gor)/Tan Wariant** | 21,577 | (2,728) | (1,439) |

**8. Yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn**

Yn ôl Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16, lefel ein cronfeydd wrth gefn oedd £78,000. Mae'r tabl isod yn amcangyfrif effaith y symudiad rhwng gweddill 2015/16 a'r gyllideb/ariannu ar gyfer y tair blynedd nesaf ar fy nghronfeydd wrth gefn:

**Yr Effaith ar y Cronfeydd ariannol wrth gefn**

| | **2016-17**<br>**£'000** | **2017-18**<br>**£'000** | **2018-19**<br>**£'000** | **2019-20**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r cyfnod | 78,000 | 56,712 | 78,289 | 75,561 |
| (Gor)/Tan Wariant | (21,288) | 21,577 | (2,728) | (1,439) |
| Cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y cyfnod | 56,712 | 78,289 | 75,561 | 74,122 |

Yn unol â'm polisi cronfeydd wrth gefn, rwy'n barnu bod angen cadw o leiaf bump y cant o'r gyllideb flynyddol mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl. Mae hyn yn cyfateb i ryw £77,000. Fodd bynnag, bydd cynnydd mewn rhai meysydd gwariant, er bod yr arbedion yn cydbwyso hynny i raddau, yn golygu bod angen defnyddio'r arian sydd wrth gefn i dalu am wariant ychwanegol yn ystod cyfnod yr Amcangyfrif hwn.